# FFURFLEN GYMERADWYO FOESEGOL
# AR GYFER PROJECTAU YMCHWIL AMGUEDDFA CYMRU

| ADRAN A: GWYBODAETH BERSONOL | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl y project: | | | |
| Dyddiad cychwyn y project: | | Dyddiad cwblhau'r project: | |
| Ariannwyd y project gan: | | | |
| Enw'r ymgeisydd | | | |
| Cyfeiriad e-bost yr ymgeisydd | | | |
| Tîm/adran | | | |
| Enw'r ymchwilydd arweiniol/Prif archwilydd a chyswllt sefydliadol | | | |
| Cyd-archwilwyr/cyd-ymchwilwyr a chyswllt sefydliadol eraill | | | |

Cyn llenwi'r ffurflen hon, darllenwch y **Cod egwyddorion moesegol a pholisi ar gyfer ymchwil a gynhelir gan ymchwilwyr yn Amgueddfa Cymru**

| ADRAN A: CRYNODEB O'R PROJECT | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | **Isod,** rhowch **grynodeb** o'ch project yn nhermau lleyg ar gyfer y darllenydd cyffredin | | |
| 2. | Beth yw'r cwestiynau ymchwil? | | |
| 3a | Ydy'r project yn cynnwys gweddillion dynol? | Ydy ☐ | Nac ydy ☐ |
| 3b | Ydy'r project yn cynnwys ymchwil pobl ddynol? | Ydy ☐ | Nac ydy ☐ |
| | Os ateboch chi 'Ydy' i 3b, neu i 3a a 3b, llenwch bob adran o'r ffurflen. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Os ateboch chi 'Ydy' i 3b, llenwch bob adran o'r ffurflen.<br><br>Os ateboch chi 'Ydy' i 3a a 'Nac ydy' i 3b, dim ond Adran F sydd angen ei llenwi.<br><br>Os ateboch chi 'Nac ydy' i 3a a 3b, does dim angen i chi lenwi'r ffurflen hon. | | |
| 5. | Pa fath o ddata fyddwch chi'n ei gasglu a pha ddulliau fyddwch chi'n eu defnyddio i wneud hyn? | | |
| 6. | Sut a ble (lleoliad) rydych chi'n cynnal y gwaith ymchwil hwn?<br><br>Beth yw'r rheswm/rhesymau dros ddefnyddio'r lleoliad arbennig hwn? | | |
| 7. | (a) Fyddwch chi'n dadansoddi data eilaidd (hynny yw, data wedi'i gasglu gan eraill at ddibenion ymchwil)?<br><br>Os BYDDWCH CHI, ydych chi eisoes wedi cael caniatâd i'w ddefnyddio mewn projectau eraill fel eich un chi?<br><br>*Rhowch fanylion* | | |
| | (b) Fyddwch chi'n defnyddio data gweinyddol (hynny yw, data wedi'i gasglu gan eraill at ddibenion cofrestru, trafodion neu gadw cofnodion)?<br><br>Os BYDDWCH CHI, sut byddwch chi'n defnyddio'r data hwn (e.e. sifftio am gyfranogwyr ymchwil addas neu ddadansoddi'r data)?<br><br>*Rhowch fanylion* | | |
| ADRAN B: recriwtio cyfranogwyr | | | |
| | Sut byddwch chi'n recriwtio'ch cyfranogwyr? | | |
| 8. | (a) Ydy'ch project chi'n cynnwys plant neu bobl ifanc dan 18 oed?<br><br>Os **Nac ydy**, ewch i gwestiwn 10 | Ydy ☐ | Nac ydy ☐ |
| | (b) Os 'Ydy', ydych chi wedi darllen canllawiau'r ESRC ar foeseg a chynnwys plant a phobl ifanc fel cyfranogwyr ymchwil?<br><br>Mae'r canllawiau ar gael [yma] | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ |
| | (c) Os 'Ydw', ydych chi hefyd wedi darllen Canllawiau Amgueddfa Cymru ar weithdrefnau diogelu plant, ac yn gwybod sut i ymateb os oes gennych chi unrhyw | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | bryderon? | | |
| 9. | (a) Ydy'ch project yn ymchwil un i un neu unrhyw ymchwil arall *heb oruchwyliaeth* gyda phlant a phobl ifanc dan 18 oed?<br>Os **Nac ydy**, ewch i 9(b)<br>Os **Ydy**, ewch i 9(c) | Ydy ☐ | Nac ydy ☐ |
| | (b) Os mai dim ond cyswllt *dan oruchwyliaeth* â phlant a phobl ifanc dan 18 oed fydd i'ch project, ydych chi wedi holi pennaeth y sefydliad lle byddwch yn cyflawni'r ymchwil i weld a ydych angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)?<br><br>Os felly, a'ch bod chi angen gwiriad DBS, yna ewch i 9(c); os nad ydych angen gwiriad DBS, ewch i gwestiwn 10. | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ |
| | (c) Oes gennych chi wiriad diweddaraf y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)? (*Rhowch fanylion isod os yw'ch cais dan ystyriaeth o hyd)* | Oes ☐ | Nac oes ☐ |
| 10. | Ydy'ch project yn cynnwys pobl ag anawsterau dysgu, cyfathrebu neu'r cof? (*Rhowch fanylion isod)* | Ydy ☐ | Nac ydy ☐ |
| | Os 'Ydy', ydych chi wedi darllen canllawiau'r ESRC ar waith ymchwil gyda phobl a all fod yn agored i niwed?<br>Mae'r canllawiau ar gael yma | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ |
| 11. | Ydy'ch project yn cynnwys pobl yn y ddalfa? (*Rhowch fanylion isod)* | Ydy ☐ | Nac ydy ☐ |
| 12. | Ydy'ch project yn debygol o gynnwys pobl sy'n gysylltiedig â gweithgareddau anghyfreithlon? (*Rhowch fanylion isod)* | Ydy ☐ | Nac ydy ☐ |
| 13. | Ydy'ch project yn cynnwys pobl sy'n perthyn i grŵp agored i niwed, ar wahân i'r rhai restrir uchod? (*Rhowch fanylion* | Ydy ☐ | Nac ydy ☐ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *isod)* | | | |
| 14. | Ydy'ch project yn cynnwys pobl sydd naill ai yn, neu'n debygol o fod, yn un o'ch cleientiaid chi neu adran yr amgueddfa rydych chi'n gweithio iddi? (*Rhowch fanylion isod)* | | Ydy ☐ | Nac ydy ☐ |
| ADRAN C: GWEITHDREFNAU CANIATÂD/CYDSYNIAD | | | | |
| 15. | Fyddwch chi'n cael caniatâd ysgrifenedig er mwyn cymryd rhan? | | Byddaf ☐ | Na fyddaf ☐ |
| | Os felly, sut fyddwch chi'n cofnodi a storio hyn? | | | |
| 16. | Darllenwch Atodiad 1 ynglŷn â'r diffiniad o 'gydsyniad gweithredol ar sail gwybodaeth' ("active, informed consent").<br><br>Pa weithdrefnau fyddwch chi'n eu defnyddio er mwyn cael cydsyniad gweithredol ar sail gwybodaeth gan gyfranogwyr? | | | |
| 17. | Os mai ymchwil arsylwadol yw hwn, fyddwch chi'n gofyn am ganiatâd cyfranogwyr cyn eu harsylwi? | Amherthnasol ☐ | Byddaf ☐ | Na fyddaf ☐ |
| 18. | Fyddwch chi'n dweud wrth gyfranogwyr mai ymchwil gwirfoddol yw hwn? | | Byddaf ☐ | Na fyddaf ☐ |
| 19. | Fyddwch chi'n dweud wrth gyfranogwyr eu bod nhw'n gallu tynnu'n ôl o'r ymchwil unrhyw bryd ac am unrhyw reswm? | | Byddaf ☐ | Na fyddaf ☐ |
| 20. | Fyddwch chi'n rhoi cyfnod digonol o amser i gyfranogwyr posibl feddwl cyn cymryd rhan? | | Byddaf ☐ | Na fyddaf ☐ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 21. | Ydy'ch project yn darparu ar gyfer pobl nad ydynt yn siarad Saesneg/Cymraeg iaith gyntaf? | Ydy ☐ | Nac ydy ☐ |
| ADRAN D: PERYGL O NIWED YN DEILLIO O'R PROJECT | | | |
| 22. | Oes unrhyw berygl gwirioneddol i gyfranogwr brofi unrhyw drallod neu annifyrrwch corfforol neu seicolegol?<br>*Os 'Oes', rhowch fanylion isod.* | Oes ☐ | Nac oes ☐ |
| 23. | Oes unrhyw berygl gwirioneddol y gallai cymryd rhan yn yr ymchwil fod yn niweidiol i ddiddordeb/buddiant y cyfranogwyr.<br>*Os 'Oes', rhowch fanylion isod.* | Oes ☐ | Nac oes ☐ |
| 24. | **Isod, nodwch unrhyw niwed posib (i chi neu gyfranogwyr) a allai godi o'r ffordd y cynhelir y gwaith ymchwil** (gweler Atodiad 2)<br><u>PEIDIWCH Â GADAEL Y BLWCH YN WAG</u> | | |
| | | | |
| 25. | **Isod, nodwch y mesurau y byddwch chi'n eu cyflwyno er mwyn rheoli unrhyw niwed posib i chi neu'r cyfranogwyr** (gweler Atodiad 3)<br><u>PEIDIWCH Â GADAEL Y BLWCH YN WAG</u> | | |
| I | | | |
| ADRAN E: DIOGELWCH YR YMCHWILYDD | | | |
| Cyn llenwi'r adran hon, dylech ddarllen Atodiad 3 'Rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r ymchwil' | | | |
| 26. | Oes unrhyw beryglon diogelwch realistig sy'n gysylltiedig â'ch gwaith maes?<br>*Os felly, rhowch fanylion ac atodi copi o'ch asesiad risg* | Oes ☐ | Nac oes ☐ |
| 27. | Ydych chi wedi ystyried canllawiau Amgueddfa Cymru ar ddiogelwch wrth wneud gwaith maes / weithio ar eich pen eich hun? | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ |

# FFURFLEN GYMERADWYO FOESEGOL
# AR GYFER PROJECTAU YMCHWIL AMGUEDDFA CYMRU

| ADRAN F: CASGLU DATA | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 28. | Ydy'r project yn cynnwys yr angen i gasglu samplau o gasgliadau Amgueddfa Cymru i'w dadansoddi? | Ydy ☐ | | Nac ydy ☐ |
| | Os felly, ydych chi wedi llenwi ac atodi'r ffurflen Cais am Samplau er Dadansoddiad, wedi'i llofnodi a'i chymeradwyo gan y Pennaeth Adran perthnasol? | Ydw ☐ | | Nac ydw ☐ |
| 28. | Ydy'r astudiaeth yn cynnwys casglu neu ddefnyddio gweddillion dynol, gan gynnwys meinwe dynol (croen, gwallt, ewinedd, asgwrn, dannedd, DNA)? | Ydy ☐ | | Nac ydy ☐ |
| | Os **Ydy**, ydych chi wedi cwrdd â'r Pennaeth Rheoli Casgliadau er mwyn ymchwilio i gydymffurfiaeth â'r Ddeddf Meinweoedd Dynol (gweler Atodiad 5)? | Ydw ☐ | | Nac ydw ☐ |
| | Ydych chi wedi atodi disgrifiad o sut byddwch yn defnyddio'r gweddillion dynol yn unol â'r Ddeddf Meinweoedd Dynol, wedi'i lofnodi gan y Pennaeth Rheoli Casgliadau? | Ydw ☐ | | Nac ydw ☐ |
| | Os yw'n berthnasol, ydych chi wedi cael Trwydded y Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn datgladdu gweddillion dynol a chytuno ar unrhyw waith ail-gladdu gofynnol neu ddychwelyd gweddillion dynol mewn ffordd addas ar ôl datgladdu a dadansoddi? | Ydw ☐ | | Nac ydw ☐ |
| 29. | Ydy'r project yn cynnwys gwaith maes archeolegol? | Yes ☐ | | No ☐ |
| | Ydych chi wedi cael caniatâd priodol gan y tenant a'r tirfeddiannwr? *Rhowch fanylion .* | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ | Amh. ☐ |
| | Fydd yr ymchwil yn cael ei gynnal y tu allan i'r DU? | Bydd ☐ | Na fydd ☐ | Amh. ☐ |
| | Os felly, ydych chi wedi cael caniatâd priodol? | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ | Amh. ☐ |
| | Ydy ardal yr ymchwil yn cynnwys unrhyw Gofebion Rhestredig? | Ydy ☐ | Nac ydy ☐ | Amh. ☐ |
| | Os "Ydy", ydych chi wedi cael caniatâd gan yr awdurdodau priodol? *Rhowch fanylion* | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ | Amh. ☐ |
| | Ydy ardal yr ymchwil o ddiddordeb/gwerth amgylcheddol arbennig (e.e. SoDdGA)? | Ydy ☐ | Nac ydy ☐ | Amh. ☐ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | Os "Ydy", ydych chi wedi cael caniatâd gan yr awdurdodau priodol? *Rhowch fanylion* | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ | Amh. ☐ |
| ADRAN G: DIOGELU DATA | | | | |
| 30. | (a) Ydych chi'n casglu data sensitif am bobl sy'n dal yn fyw? [Diffinnir fel: tras hiliol neu ethnig cyfranogwyr, barn wleidyddol, barn grefyddol (neu debyg), aelodaeth o undeb llafur, iechyd corfforol neu feddyliol, bywyd rhywiol, unrhyw drosedd a gyflawnwyd neu drosedd honedig, neu benderfyniad achos cyfreithiol neu ddedfryd unrhyw lys mewn achosion o'r fath.] | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ | |
| | Os **Ydw**, sut byddwch chi'n defnyddio gweithdrefn gydsynio fwy trylwyr? | | | |
| | (b) Ydych chi'n casglu data personol (h.y. data lle gellir adnabod unigolyn sy'n dal yn fyw)? [DS: mae hyn yn cynnwys enwau, cyfeiriadau, ffotograffau, recordiad o gyfweliadau/grwpiau ffocws, DNA ac ati.] | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ | |
| | Os **Ydw**, sut fyddwch chi'n sicrhau bod y data hwn yn anhysbys? | | | |
| | (c) Fyddwch chi'n cadw unrhyw ddata nad yw'n anhysbys a/neu ddata personol? | Byddwn ☐ | Na fyddwn ☐ | |
| | Os **na fyddwch chi**, beth yw'r rhesymau am hyn ? | | | |
| | (d) Dylai data (h.y. recordiadau o gyfweliadau go iawn, nid dim ond trawsgrifiadau) gael ei gadw am o leiaf ddeng mlynedd neu bum mlynedd ar ôl ei gyhoeddi. Ydych chi wedi nodi a chynnwys y wybodaeth hon yn eich Taflen(ni) Gwybodaeth i gyfranogwyr? | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ | |
| 31. | **Isod,** dywedwch sut fyddwch chi'n ymdrin â diogelwch data. Nodwch, nid yw gliniaduron personol (hyd yn oed rhai wedi'u diogelu â chyfrinair) sy'n cael eu cadw mewn llety personol | | | |

| | |
|---|---|
| | yn dderbyniol. Rhaid storio ar rwydwaith Amgueddfa Cymru. |
| | |

Os oes unrhyw faterion moesegol posibl eraill y dylai'r Bwrdd Ymchwil eu hystyried, esboniwch hynny ar daflen arall. Eich cyfrifoldeb chi yw tynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion neu broblemau moesegol nad ydynt wedi'u cynnwys ar y ffurflen hon.

# Atodiad 1: Diffiniad o gydsyniad gweithredol ar sail gwybodaeth a rheolaeth ohono, ar gyfer projectau ymchwil sy'n cynnwys pobl sy'n dal yn fyw

Gweler canllawiau UK Research Ethics Guidebook (http://www.ethicsguidebook.ac.uk/Seeking-consent-88).
Mae'n diffinio cydsyniad fel a ganlyn:

*Consent is the central act in research ethics, as set out in the 1947 Nuremberg Code. The 1964 Helsinki Declaration stipulated that valid consent is properly informed and also freely given – without pressures such as coercion, threats or persuasion. The Nuremberg Code and Helsinki Declaration remain at the foundation of principles of consent in research today. The ESRC Framework for Research Ethics has two core principles concerned with freely given and fully informed consent - elsewhere these principles are captured in the concept of* valid consent*.*
*Principle Two states that:*
*'Research subjects must be informed fully about the purpose, methods and intended possible uses of the research, what their participation in the research entails and what risks, if any, are involved.'*
*Principle Four states:*
*'Research participants must participate in a voluntary way, free from any coercion.'*
*Respect for people's consent or refusal helps to prevent harm and abuse, such as their feeling deceived, exploited, shamed, or otherwise wronged by researchers. Participants and researchers may define 'harm' very differently. The consent process needs to allow time to clarify any differences. Researchers may then gain new insights into risks, and how to reduce them.*
*Consent is therefore a process – not a simply yes or no. It is the process by which potential participants can decide if it is worth taking part in a study despite any risks and costs. This may sound rather extreme for a decision to take part in a small study, but respect for consent sets standards of respect for the whole relationship between the researchers and participants.*

Hefyd, gweler UK Data Archive: http://www.data-archive.ac.uk/create-manage/consent-ethics/consent

## Cydsyniad ar sail gwybodaeth

Mewn ymchwil foesegol, mae'n hollbwysig esbonio beth ydych chi'n ofyn i bobl ei wneud a'r goblygiadau posib, fel y gallant wneud penderfyniad cywir drostynt eu hunain er mwyn cymryd rhan ai peidio.

### Taflen wybodaeth i'w rhoi i gyfranogwyr

Mae'n arfer dda rhoi Taflen Wybodaeth i bawb fydd yn cymryd rhan yn y project. Dylech gyflwyno'r wybodaeth ganlynol yn glir ar y Daflen, a hynny mewn iaith sy'n ddealladwy i unigolyn cyffredin yn hytrach nag arbenigwr yn eich maes chi:

- eich bod yn estyn gwahoddiad iddynt gymryd rhan mewn project ymchwil
- pwy ydych chi – eich rôl o fewn yr Amgueddfa
- natur, risgiau (os o gwbl), manteision (os o gwbl), hyd a diben y project ymchwil. Dylech roi gwybodaeth glir ynglŷn â'r hyn fyddwch chi'n gofyn i'r cyfranogwr ei wneud, ble fydd y gwaith ymchwil yn cael ei gynnal, unrhyw beryglon i lesiant, iechyd a/neu ddiogelwch y cyfranogwr a'r camau y byddwch yn eu cymryd i leihau hyn.
- mai project cwbl wirfoddol yw hwn, a bod croeso i'r cyfranogwr dynnu'n ôl unrhyw bryd, heb orfod rhoi rheswm

- os yw'r project yn cael ei ariannu (ac os felly, gan bwy)

- ar gyfer beth fyddwch chi'n defnyddio'r wybodaeth, gan gynnwys ble fydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi

- beth yw'r trefniadau o ran cyfrinachedd gwybodaeth am gyfranogwyr yr ymchwil, a mynediad at wybodaeth o'r fath.

– sut bydd data'n cael ei ddefnyddio, ei storio a'i gyrchu – trowch i'r canllawiau ar foeseg yn: http://www.ethicsguidebook.ac.uk/Consent-to-data-archiving-or-data-sharing-90 Yn y gorffennol, mae ymchwilwyr wedi canolbwyntio'n bennaf ar gael cydsyniad/caniatâd i gasglu data yn unig, ond dylech hefyd ddweud wrth y cyfranogwyr sut y bydd eu data'n cael ei storio, ei gadw a'i ddefnyddio yn y tymor hir, a sut fyddwch chi'n cadw cyfrinachedd, pan wnaethpwyd addewid o hynny. Felly, mae'n bwysig egluro sut fyddwch chi'n defnyddio'r data ymchwil mewn ffordd briodol a moesegol, yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

- sut all cyfranogwyr yr ymchwil gael rhagor o wybodaeth am y project (fel darparu rhif ffôn gwaith/cyfeiriad e-bost yr ymchwilydd – peidiwch â rhoi rhifau ffôn cartref).

- â phwy allai'r cyfranogwr gysylltu os yw'n poeni am y modd y cafodd yr ymchwil ei gynnal. Y Pennaeth Ymchwil fydd hwn fel arfer.

Os oes gormod o fanylion ar y Daflen Wybodaeth, efallai na fydd cyfranogwyr yn trafferthu ei darllen. Mae darllen drwy'r daflen gyda'r cyfranogwr yn enghraifft o arfer dda. Efallai yr hoffech baratoi dwy fersiwn, un fyrrach a hirach e.e. rhoi crynodeb ar y dudalen flaen a manylion llawnach ar y cefn.

Hefyd, dylech adael copi o'r daflen wybodaeth i'r cyfranogwr ei gadw.

## Ffurflen ganiatâd

Dylech ofyn i gyfranogwyr gydsynio i gymryd rhan, yn ysgrifenedig, ar ffurflen ganiatâd. Dylai'r daflen wybodaeth fod ar wahân i'r ffurflen ganiatâd a'r Bwrdd Ymchwil.

Cyn rhoddir caniatâd ysgrifenedig, dylech sicrhau bod y cyfranogwr arfaethedig wedi cael cyfle i ddarllen y daflen wybodaeth a gofyn cwestiynau am yr ymchwil. Felly, dylid neilltuo digon o amser rhwng y cais i gymryd rhan a llofnodi'r ddogfen, oni bai bod rhesymau penodol dros fethu â gwneud hyn.

Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai na fydd yn angenrheidiol neu'n briodol gofyn am ganiatâd ysgrifenedig, er bydd angen rhoi cyfiawnhad clir i'r Bwrdd Ymchwil am hyn. Er enghraifft, os ydych chi'n cyflwyno holiaduron nad ydynt yn gofyn cwestiynau treiddgar, a bod y daflen flaen yn esbonio'r hyn fydd yn cael ei ofyn yn ddigon clir, yna gallwn gymryd bod y weithred o dderbyn yr holiadur yn gyfystyr â chaniatâd y cyfranogwr. Gall fod sefyllfaoedd eraill hefyd lle byddai darparu taflen wybodaeth yn ddigonol. Lle nad ydych chi'n gofyn am ganiatâd ysgrifenedig, am reswm da, mae'n bwysig sicrhau eich bod chi'n neilltuo digon o amser i gyfranogwyr ddarllen gwybodaeth am yr ymchwil a gofyn cwestiynau.

Dalier sylw: Os hoffech gynnal cyfweliadau neu waith arsylwi heb gydsyniad/caniatâd, yna mae angen i chi ddarparu cyfiawnhad dros wneud hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch project. Nid yw'n ddigon da dyfynnu canllawiau sy'n dweud y gall dull o'r fath fod yn addas, heb ddangos pam mae hynny'n angenrheidiol yng nghyd-destun penodol

## Cydsyniad goddefol v gweithredol ar sail gwybodaeth

Mae **cydsyniad goddefol** yn cael ei ystyried yn weithdrefn 'optio allan' fel arfer – mewn geiriau eraill, os nad ydych chi'n gweithredu, neu ddim yn ymateb i gais am ganiatâd, neu'n cadw'n dawel, yna byddwn yn cymryd eich bod wedi cydsynio neu roi caniatâd. Neu, yn achos ymchwil gyda phlant, rydym yn cymryd bod rhieni wedi caniatáu i'w plant gymryd rhan oni bai eu bod nhw'n cyflwyno ffurflen i wrthod hynny'n benodol.

# FFURFLEN GYMERADWYO FOESEGOL AR GYFER PROJECTAU YMCHWIL AMGUEDDFA CYMRU

Mae **cydsyniad gweithredol** yn cael ei weld fel proses 'optio i mewn': sy'n golygu bod rhaid i chi weithredu, ymateb i gais, neu ddweud 'iawn' er mwyn cymryd eich bod yn cydsynio. Byddai'n rhaid i rieni anfon ffurflen ganiatâd er mwyn i'w plant gymryd rhan yn eich astudiaeth.

Fel arfer, mae cydsyniad gweithredol yn cael ei ystyried yn well, er bod rhywfaint o ddadlau am hyn (er enghraifft, yn aml nid yw rhai nad ydynt yn ymateb i gais am ganiatâd o reidrwydd yn golygu eu bod nhw'n gwrthod cymryd rhan, ond efallai ddim yn ymgysylltu â'r cais, am ba bynnag reswm). Mater i'r ymchwilwyr yw arfer eu doethineb, ar ôl darllen yr erthyglau a'r canllawiau a awgrymir yn yr Atodiad hwn. Os oes gennych chi unrhyw amheuon, trafodwch gyda'r Pennaeth Ymchwil.

Rhagor o fanylion yn:
https://www.researchgate.net/publication/8430898_Active_and_passive_consent_A_comparison_of_actual_research_with_children